# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

## *Lleihau Ynysigrwydd (PR011)*

Mae'r proffil hwn yn dangos y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen**

Cynlluniwyd y rhaglen i sefydlu dull 'system gyfan' ar draws sectorau iechyd a gofal cymdeithasol Cwm Taf Morgannwg, gyda'r nod o feithrin cyd-ddibyniaeth iach ymhlith pobl hŷn drwy rannu cyfrifoldebau am ganlyniadau a phrofiadau gwell. Cyn y rhaglen, roedd atgyfeiriadau gan bartneriaid statudol i sefydliadau trydydd sector yn brin ac nid oeddent yn ymwybodol o'r cymorth a gynigiwyd gan y sefydliadau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, creodd y rhaglen un pwynt mynediad at wasanaethau trydydd sector, gan ei integreiddio i lif proses IAA Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

Elfen hanfodol o'r rhaglen hon yw Grant Cyfeillio'r Gronfa, a reolir gan Weithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful. Mae'r grant hwn yn cefnogi mentrau'r sector gwirfoddol ym Merthyr a RhCT sy'n darparu gwasanaethau cyfeillio trwy alwadau ffôn, ymweliadau cartref, a chymorth i fynychu grwpiau cymorth a gweithgareddau gan gymheiriaid. Nod y grantiau yw lleihau teimladau ynysig ac unigrwydd ymysg pobl 50+ oed, a all effeithio'n negyddol ar eu llesiant corfforol a meddyliol, eu hyder, eu hunan-barch, eu gwytnwch a'u hannibyniaeth.

Yn fynych, nid oes gan unigolion ynysig ac unig, a all fod yn byw ar eu pen eu hunain neu gyda theulu, rwydweithiau cymorth uniongyrchol, a gallant ddibynnu'n helaeth ar wasanaethau iechyd fel meddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl, gan arwain weithiau at orddibyniaeth ar feddyginiaeth. Mae'r rhaglen yn targedu'r unigolion hyn, yn enwedig y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth ac sy'n cael trafferth symud ymlaen. Mae'r cynllun grant, a gefnogir gan Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, yn cynnwys asiantau darparu fel Age Connects Morgannwg, y Groes Goch Brydeinig, Merthyr Tudful Mwy Diogel, Volunteering Matters, a Valleys Kidz.

## Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Atal a chydgysylltu cymunedol

*Galluogwyr:*

Promoting the social value sector

Integrated community hubs

Workforce development and integration

*Grŵp poblogaeth â blaenoriaeth:*

Pobl hŷn

*Grŵp poblogaeth â blaenoriaeth:*

Cyflwynir y rhaglen gan bartneriaid lluosog ar draws rhan o'r rhanbarth gan gynnwys y sector statudol a'r trydydd sector. Mae cyllid y Gronfa yn cyfrannu at ddarparu cymorth yn y gymuned i leihau unigedd.

## Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael eu cefnogi i ymgysylltu â'u cymuned leol a chael ansawdd bywyd lle mae unigrwydd yn cael ei leihau.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a lles da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn gallu cymryd rhan mewn gwasanaethau yn eu cymunedau, cyfrannu atynt a chael mynediad iddynt.

## Gwariant prosiect – £202,048 (BA 2023/24)




## *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| Awdurdodau lleol |
| Trydydd sector |
| Darparwyr cymunedol |
| Heddlu De Cymru |
| |

## *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at gyflawni prosiectau cyfeillgarwch a lleihau ynysu yn bennaf yn ardaloedd MT a RhCT y rhanbarth. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.

## Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol):
*(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)*

| | |
|---|---|
| Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau | 18 |
| Nifer yr atgyfeiriadau | 333 |
| Nifer y grwpiau newydd a hwyluswyd | 60 |
| Nifer yr unigolion sy'n mynychu sesiynau | 2224 |
| Nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd | 134 |
| Nifer y cyfleoedd newydd i ymgysylltu â'r gymuned leol (datblygedig) | 54 |
| Nifer y gwasanaethau lleol newydd a ddatblygwyd gan ddefnyddio dull | 26 |

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
*(Rhifau)*




## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Effaith y rhaglen (ansoddol):

1. **Gwell Llesiant**: Mae pobl yn aml yn dweud eu bod yn teimlo'n llai unig ac yn fwy cysylltiedig yn gymdeithasol, gan gyfrannu at eu hapusrwydd cyffredinol a'u llesiant meddyliol.
2. **Gwell Cysylltiadau Cymdeithasol:** Trwy gefnogi cyfeillgarwch newydd a meithrin perthynas gefnogol ag eraill, mae'r rhaglen yn gwella sylfaen gymdeithasol ein cymunedau.
3. **Integreiddio Cymunedol:** Mae'r rhaglen yn hwyluso integreiddio cymunedol trwy annog cyfranogiad mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol. Mae pobl yn teimlo mwy o gyswllt â'u cymdogaethau ac yn dod o hyd i gyfleoedd i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.
4. **Ansawdd Bywyd**: Mae'r rhaglen yn cyfrannu at well ansawdd bywyd trwy fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a darparu cymorth ymarferol. Mae pobl yn teimlo'n fwy abl i reoli eu bywydau bob dydd, gan leihau straen a gwella eu gallu i ymdopi â heriau.
5. **Manteision Iechyd Ataliol**: Trwy ryngweithio, a chymorth rheolaidd, mae'r rhaglen yn helpu i leihau dirywiad iechyd corfforol a meddyliol. Mae pobl yn aml yn teimlo'n iachach ac yn fwy gwydn o gael ymgysylltiad cadarnhaol rheolaidd, gan briodoli gwelliant i'r cymorth cymdeithasol ac emosiynol a gânt.

At ei gilydd, mae effaith y rhaglen yn pwysleisio ei rôl o ran meithrin perthynas ystyrlon ag eraill, hyrwyddo llesiant, a gwella ansawdd bywyd cyffredinol oedolion hŷn a'u gofalwyr. Mae'r canlyniadau ansoddol hyn yn dangos effaith y rhaglen y tu hwnt i ystadegau, gan ddangos ei phwysigrwydd wrth gefnogi ein cymuned.

## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Mae'r rhaglen Grant Cyfeillio, a reolir gan GGMT, wedi bod yn allweddol wrth ddarparu cymorth i oedolion hŷn a'u gofalwyr ym Merthyr Tudful a RhCT. Trwy wasanaethau cyfeillio dros y ffôn a phersonol, hwylusodd y rhaglen 333 o atgyfeiriadau a chefnogi 2,224 o unigolion, gyda gwirfoddolwyr yn cyfrannu 2,463 o oriau gwerth tua £33,952. Arweiniodd yr ymdrech hon at 1,908 o unigolion yn nodi cynnydd mewn cysylltiadau cymdeithasol, 1,909 yn nodi gwell iechyd meddwl, a 1,949 yn gwneud ffrindiau newydd.

Er bod y rhaglen yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr, nid yw ar gael yn rhanbarthol ac mae'n wynebu heriau parhaus fel trafnidiaeth leol annigonol, cyfyngiad o ran y cymorth iechyd meddwl sydd wedi'i deilwra i ddynion, a diffyg gwasanaethau i'r rheini ar y sbectrwm ASD. At hynny, nid yw'r lefelau ariannu presennol yn bodloni'r galw cynyddol ac nid yw'n cynnwys chwyddiant na chostau gweithredu angenrheidiol. Er gwaethaf hyn oll, cryfderau'r rhaglen yw ei phrosiectau cynaliadwy, ei hymagwedd 'Beth sy'n Cyfri' wedi'i phersonoli, ac ymgysylltiad cymunedol effeithiol.

Mae'r rhaglen wedi gwella llesiant oedolion hŷn a'u gofalwyr yn sylweddol drwy ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol, lleihau unigedd, a meithrin cysylltiadau cymunedol. Bydd mynd i'r afael â'r cyfyngiadau a nodwyd ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn sicrhau llwyddiant parhaus ac ehangiad y rhaglen, gan gynyddu ymhellach ei heffaith gadarnhaol ar ein cymunedau.

## Argymhellion:

Er mwyn cynnal, gwella ac ymestyn effeithiolrwydd y rhaglen, byddai angen cyllid ychwanegol, ehangu gwasanaethau cymorth, cryfhau partneriaethau lleol, a gwella hygyrchedd trafnidiaeth.

- **Ariannu ataliol cynaliadwy**: Dylid datblygu strategaeth ariannu gadarn ac amrywiol sy'n archwilio modelau buddsoddi cymdeithasol. Bydd hyn yn darparu sefydlogrwydd ariannol a hyblygrwydd i ehangu gwasanaethau ac ateb y galw cynyddol.
- **Partneriaethau gwell**: Dylid cryfhau partneriaethau gyda BauILI, AauLI a sefydliadau cymunedol i greu rhwydweithiau cymorth integredig.
- **Ymgysylltu â'r gymuned:** Dylid cynyddu ymwybyddiaeth y gymuned o fanteision y rhaglen ac ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid trwy ddigwyddiadau rhwydweithio.
- **Modelau darparu arloesol**: Dylid archwilio modelau darparu gwasanaeth arloesol fel llwyfannau cyfeillio rhithiol, rhwydweithiau cymorth cymheiriaid, ac atebion a alluogir gan dechnoleg i gyrraedd unigolion mwy ynysig a darparu opsiynau cymorth hyblyg.